Rhif: **WG26884**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 o'r Ddeddf

Dyddiad cyhoeddi: **23 Hydref 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Rhagfyr 2015**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich safbwyntiau ar y cod ymarfer ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 8 (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd i ni erbyn canol nos ar y dyddiad cau, drwy'r post i:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Fel arall, mae'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (www.llyw.cymru/consultations/?skip=1&lang=cy) a gallwch ei dychwelyd atom drwy e-bost i: sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, mewn Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ebost: sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk
ffôn: 029 2082 6880

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y cod ymarfer mewn perthynas â swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 8 (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”).

Caiff y cod ymarfer ei gyhoeddi o dan adran 145 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi codau ymarfer i awdurdodau lleol ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae rhestr o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i'w gweld yn Atodlen 2 o'r Ddeddf.

## Ble'r ydym ni arni nawr?

Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'n pennu system gyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, ac mae disgwyl iddi ddod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn creu fframwaith sy'n crynhoi ac yn moderneiddio'r gyfraith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan roi mwy o bwyslais ar weithredu ataliol, cynnwys pobl yn fwy mewn penderfyniadau am y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, ac ymdrin â'r her o newid economaidd a demograffig.

Mae Adran 144 o'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i awdurdod lleol benodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Ni chaniateir i awdurdod lleol benodi person yn gyfarwyddwr oni bai ei fod yn fodlon bod y person hwnnw wedi gallu dangos cymwyseddau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cod ymarfer neu reoliadau.

## Tystiolaeth ar gyfer newid

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wrth wraidd cymdeithas Cymru. Caiff nifer o'r gwasanaethau hyn eu darparu mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae disgwyliadau'r cyhoedd o ofal a chymorth wedi newid, a byddant yn parhau i newid, o ganlyniad i newidiadau demograffig a chymdeithasol. Yn ogystal â hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn heriol.

Bydd swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol wrth ddarparu'r arweiniad strategol sydd ei angen i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Cafodd canllawiau statudol blaenorol ar swyddogaeth ac atebolrwydd cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2009 o dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

## Y Cynigion

Wrth gyflawni gofynion y Ddeddf, bydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn atebol am ansawdd a darpariaeth gwasanaethau ac yn

chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gwasanaeth effeithiol ac yn rheoli perfformiad; yn rhoi cyfeiriad strategol clir; arweiniad proffesiynol ar gyfer staff a gwasanaethau; ac yn meithrin cydberthnasau gwaith effeithiol o fewn awdurdodau lleol, a thu hwnt iddynt.

Mae'r cod ymarfer hwn yn ceisio nodi:

- cymwyseddau gofynnol ar gyfer cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol;

- trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y cyfarwyddwr;

- swyddogaethau penodol y cyfarwyddwr wrth weithredu'r Ddeddf, gan gynnwys swyddogaeth a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwr mewn perthynas â diogelu, plant mewn gofal a chynnal safonau ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan;

- yr angen i baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n briodol):

Cyfeiriad e-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Y cwestiynau**

<table>
<tr><td colspan="4"><h2>Cymwyseddau gofynnol ar gyfer cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol</h2></td></tr>
<tr><td colspan="4">1. I ba raddau rydych yn cytuno mai'r cymwyseddau a nodwyd ym mharagraff 82 yw'r rhai cywir i sicrhau bod cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn gallu cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn effeithiol?</td></tr>
<tr><td>Cytuno ☐</td><td>Yn dueddol o gytuno ☐</td><td>Yn dueddol o anghytuno ☐</td><td>Anghytuno ☐</td></tr>
<tr><td colspan="4">A oes cymwyseddau eraill y byddech yn disgwyl i gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol eu dangos? Os felly, esboniwch:</td></tr>
<tr><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="4"><h2>Gwireddu Canlyniadau</h2></td></tr>
<tr><td colspan="4">2. I ba raddau rydych yn cytuno bod swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn glir?</td></tr>
<tr><td>Cytuno ☐</td><td>Yn dueddol o gytuno ☐</td><td>Yn dueddol o anghytuno ☐</td><td>Anghytuno ☐</td></tr>
<tr><td colspan="4">Beth fyddai'n helpu i egluro swyddogaeth y cyfarwyddwr wrth gyflawni canlyniadau?</td></tr>
</table>

## Atebolrwydd

**3. (i) I ba raddau rydych chi’n cytuno bod atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wedi'i ddiffinio'n ddigonol?**

| **Cytuno ☐** | **Yn dueddol o gytuno ☐** | **Yn dueddol o anghytuno ☐** | **Anghytuno ☐** |
|---|---|---|---|

Beth fyddai'n egluro hyn yn well?

**(ii) I ba raddau rydych chi'n cytuno bod swyddogaeth gorfforaethol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o fewn awdurdod leol wedi'i diffinio'n ddigonol?**

| **Cytuno ☐** | **Yn dueddol o gytuno ☐** | **Yn dueddol o anghytuno ☐** | **Anghytuno ☐** |
|---|---|---|---|

Beth fyddai'n egluro hyn yn well?

## Hyrwyddo llesiant

**4. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod swyddogaeth a chyfrifoldebau y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wrth hyrwyddo cydweithredu i wella lles pobl ag anghenion gofal a**

**chymorth wedi'u hamlinellu'n glir?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cytuno ☐** | **Yn dueddol o gytuno ☐** | **Yn dueddol o anghytuno ☐** | **Anghytuno ☐** |

Os oes angen mwy o eglurder ynghylch y swyddogaeth, sut y gellir gwneud hyn?

## Cynllunio'r Gweithlu

**5. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod swyddogaeth a chyfrifoldeb y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu ar draws y sector wedi'u diffinio'n ddigonol?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cytuno ☐** | **Yn dueddol o gytuno ☐** | **Yn dueddol o anghytuno ☐** | **Anghytuno ☐** |

Os oes angen mwy o eglurder ynghylch y swyddogaeth, sut y gellir gwneud hyn?

## Adroddiad Blynyddol

**6. I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y gofynion mewn perthynas â llunio adroddiad blynyddol yn ddigonol i sicrhau bod y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn destun system graffu ac atebolrwydd effeithiol?**

| Cytuno ☐ | Yn dueddol o gytuno ☐ | Yn dueddol o anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
|---|---|---|---|
| Pa ofynion ychwanegol byddai'n helpu i lunio adroddiad blynyddol cryf? | | | |
| | | | |

7. **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.**

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch. ☐